

Teitl y Swydd: Cydlynnydd Tennis y Brifysgol

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 2A/B

HERA: CMETS151

Prif bwrpas y rôl

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ceisio recriwtio Cydlynnydd Tennis Prifysgol am gyfnod o ddwy flynedd. Dyma gyfle i ennill profiad hyfforddi tenis a datblygu clybiau mewn sefydliad chwaraeon addysg uwch blaenllaw. Mae cyfle hefyd i gwblhau gradd Meistr a chymhwyster Hyfforddi Lefel 3 LTA os dymunir. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio drwy gydol y flwyddyn, yn rhan-amser, 15 awr yr wythnos. Byddant wedi'u lleoli ar Gampws Cyncoed ond yn gweithio rhwng Cyncoed a Llandaf.

Mae CTB yn bennaf gyfrifol am gynyddu lefelau cyfranogiad myfyrwyr mewn Tennis. Byddant yn cyfrannu at gyflawni a gweithredu ein gweledigaeth 'addysg am oes drwy denis', a bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda Phennaeth Tennis, Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd, Chwaraeon Met Caerdydd, staff academiaidd, Tennis Cymru a'r LTA.

Rôl ddatblygiadol yw hon, wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn ymgymryd â gyrfa mewn tenis. Yr ymgeiswyr llwyddiannus fydd y rhai sydd â gweledigaeth glir o sut i wella profiad tenis myfyrwyr wrth ddeall sut y gall y rôl hon gyd-fynd â'u huchelgeisiau gyrfaol eu hunain.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol .

- Cynyddu lefelau cyfranogiad myfyrwyr tenis ym Met Caerdydd trwy amrywiaeth o ddulliau. Datblygu a gweithredu system i fonitro lefelau cyfranogiad, cystadleuaeth a chadw staff.
- Datblygu cyfleoedd cystadleuol mewnol ac allanol ar gyfer pob lefel o chwaraewr.
- Sefydlu a datblygu rhaglen wirfoddoli tenis.
- Cystadlu dros y Brifysgol yng nghystadleuaeth BUCS a chynorthwyo gyda hyfforddiant tîm yn ôl yr angen.
- Sefydlu digwyddiadau a fyddai'n cynnwys prifysgolion eraill.
- Cynorthwyo gyda chyhoeddusrwydd y rhaglen i fyfyrwyr yn fewnol ac yn allanol, a recriwtio myfyrwyr i'r timau tenis a'r clwb tenis

- Cefnogi cynllunio a gweithredu rhaglen datblygu gweithlu tenis sy'n cyd-fynd ag amcanion Chwaraeon Met a'r NGB, gan sicrhau ymgysylltiad priodol y myfyrwyr
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen yn unol â gradd y rôl y gallai Pennaeth Tennis ofyn amdani.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gydag addysg hyd at lefel gradd mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â chwaraeon, neu gyfwerth.
- Cymhwyster hyfforddi tenis achrededig gan yr LTA - Lefel 1 o leiaf gydag ymrwymiad i weithio tuag at Lefel 2.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Gwybodaeth am y diwydiant tenis, gan gynnwys amgylcheddau clybiau, strwythurau cystadlu, cymwysterau, tueddiadau newydd a rhai sydd ar ddod.
2. Dealltwriaeth o Denis BUCS a strwythur y gystadleuaeth
3. Gallu amlwg i berfformio i safon briodol er mwyn chwarae ar lefel gystadleuol.
4. Deall sut i ymgysylltu, cyfathrebu, cael adborth a chefnogi cyfranogwyr i fwynhau gweithgareddau tenis yn ddiogel
5. Gwybodaeth am anghenion llesiant a sut i reoli ymddygiad myfyrwyr yn gadarnhaol
6. Deall sut i ddarparu a gweithio o dan oruchwyliaeth briodol ac o fewn ffiniau proffesiynol
7. Deall sut i gynllunio a pharatoi gweithgareddau tenis cynhwysol, diogel ac effeithiol wedi'u teilwra i anghenion amrywiaeth o gyfranogwyr
8. Gwybodaeth am y mathau o rolau sydd eu hangen ar gyfer clwb tenis llwyddiannus, (gan gynnwys hyfforddwr, chwaraewyr, gwirfoddolwyr ac ati) a'r hyn sydd ei angen ar bob rôl yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
9. Y gallu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fyfyrwyr drwy arwain trwy esiampl a chreu diwylliant clwb cefnogol

Dymunol

1. Cymhwyster hyfforddi tenis achrededig gan yr LTA - Lefel 2+

2. Gweledigaeth glir o ddyheadau gyrfa yn y dyfodol a sut y bydd y rôl hon yn cefnogi hynny
3. Deall sut mae'r LTA a Tennis Cymru yn cefnogi Tennis Met Caerdydd

Gofynion sgiliau Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Gallaf fynegi fy hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS manylach.



Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.